



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Mawrth 2016 am 6.30yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 March 2016 at 6.30pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*),
Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Ken Edwards, Graham Evans, Melfydd George,
Gwynfi Jenkins, Neal Jones, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Ysgol Gynradd Aberteifi ar ennill y categori uchaf gan ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) – Categori Cymorth Gwyrdd. Yn ogystal, diolchodd i'r ysgol am gyfraniad Gŵyl Ddewi'r côr wrth iddynt berfformio yn festri Capel Mair yr wythnos ddiwethaf. Diolch i'r athrawon am roi o'u hamser. Diolchwyd i gwmni 4CG am gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus Feidrfair a Lôn y Moch.

Ras yr Iaith – yn dilyn llwyddiant Ras yr Iaith yn 2014, mae trefniadau wedi cychwyn i gynnal y ras unwaith eto eleni, gan ehangu llwybr y ras yn sylweddol trwy ddechrau ym Mangor a gorffen yn Llandeilo a thrwy hynny ymweld â dros ugain o drefi ar hyd y wlad. Ar y 7fed o Orffennaf bwriedir i'r ras deithio drwy ganol nifer o drefi yng Ngheredigion – Aberystwyth, Tregaron, Llambod, Aberaeron, Cei Newydd, Llandysul – gan orffen y dydd yn Aberteifi; bydd Cered yn trefnu'r digwyddiadau yn y dref ar ddiwedd y dydd. Cabinet y cyngor sir sydd yn cefnogi'r Ras. Mae'r cyngor sir wedi lawnsio cronfa werdd newydd ar gyfer cymunedau Ceredigion i gynorthwyo'r cymunedau lleol i ddelio â'u gwastraff mewn modd cynaliadwy gan wella ardaloedd gwyrdd o fewn y gymuned. Mae swm i fyny at £500 ar gael. Gwyntylodd y Maer y newyddion bod cwmni o Aberteifi yn derbyn enwogrwydd byd-eang unwaith eto ym myd creu dillad; llongyfarchodd Hiut Denim, a dymunodd y gorau iddynt yn y fenter.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting. He congratulated Ysgol Gynradd Aberteifi on winning the highest category offered by ERW (Education through Regional Working). He also thanked the school for its St David's Day contribution at Capel Mair vestry recently – the diligence of the school teachers is very much appreciated. The council's appreciation was paid to 4CG for taking responsibility of the Chancery Lane and Feidrfair toilets.

Race for Life – Following the success of the 2014 race, plans are underway to hold a similar race this year and expanding the route to include over twenty towns throughout the country. On the 7th July the race will proceed through Ceredigion – Aberystwyth, Tregaron, Lampeter, Aberaeron, New Quay, Llandysul – with a final event for the day to be held in Cardigan which will be organised by Cered. The county council Cabinet will fund the race. The county council has launched a new green fund for the districts of Ceredigion to assist local communities to deal with green waste in a sustainable manner and to improve green areas. A sum of £500 is available for local groups.

The Mayor highlighted the success of a local company in the clothing industry once more – Hiut Denim was congratulated on their success.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng./Cllr Akira Shimazaki

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.
---------------------------------	--

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Chwefror.

Confirmation of Minutes of 2 February Council Meeting.

Tud. 1083, eitem 13 (Cyngor Ieuenctid): Cynhelir y cyflwyniad yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr nid yn Neuadd y Dref.

Page 1083, item 13 (*Youth Council*): The presentation will be held at the Fisherman's Rest not at the Guildhall.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendment, Cllr Jane Roche proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1077, eitem 1 (Bugeiliaid Strydoedd Teifi): Dywedodd y Cyng. Mark Cole ei fod yn bles bod y cyngor wedi cydnabod gwasanaeth trylwyr y Bugeiliad dros y chwe blynedd olaf; bydd ef yn ymuno gyda nhw i ddathlu achlysur ei sefydliad pan oedd ef yn Faer y Dref.

Tud. 1083, eitem 13 ("Soap Box Derby"): Disgwylir ymateb cadarnhaol oddi wrth gwmni Sainsbury's ynglŷn â lleoliad y digwyddiad. Mae Mr Ben Cramp yn dal i edrych am safle gwahanol i'w gynnal.

Page 1077, item 1 (*Teifi Street Pastors*): Cllr Mark Cole was pleased that the council had acknowledged the fine work accomplished by the pastors; he will join them in celebration of the six years since their formation when he was Town Mayor.

Page 1083, item 13 (*Soap Box Derby*): A positive response from Sainsbury's is still awaited. Mr Ben Cramp is continuing with his research into an alternative venue to hold the event.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer am fis Chwefror i bob aelod yn y cyfarfod.

The Mayor's diary for the month of February was distributed to all members at the meeting.

7. Cynllunio / Planning.

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A150190	4 High Street	Display of signage — notification of decision on application for listed building consent	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (2)
A150890	Bathroom Centre, The Strand	Demolition of existing redundant and derelict church and erection of new storage shed.	<i>Mae'r cais wedi ei dynnu'n ôl.</i> The application has been withdrawn.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
4/8/15	Awen Teifi: <i>Llyfr</i> /Book "Wales from the Air"	B6	4216	£19.95 (0.00)
31/1/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> /Simultaneous translation (5/1/16 & 12/1/16)	A18	4217	£98.40 (16.40) £108.90 (18.15)
1/3/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary (<i>Chwefror</i> /February)	A3	4218	£748.90 (0.00)
1/3/16	L. W. Jones (<i>costau</i> /expenses: postage [<i>yn cynnwys</i> /including BDO, Japan], cloakroom tickets, llun)	A21	4218	£26.59 (0.00)
11/2/16	Insignia Swallow Office Supplies: Shredder <i>Offer swyddfa</i> /Stationery	A17 A7	4219	£91.42 (15.24) £16.37 (2.73)
2/2/16	Midshire Business Systems: <i>Llungopio</i> /Photocopying	A17	4220	£6.01 (1.00)
29/2/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> /Simultaneous translation (2/2/16)	A18	4221	£77.40 (12.90)
29/2/16	Welch & Co. (Solicitors) Ltd.: <i>Gwaith cyfreithiol ar y tir</i> . Professional charges for reviewing the lease of Pentop Play Area and registration of the lease at the Land Registry	C12	4222	£583.00 (90.00)
29/2/16	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Chwefror</i> /February)	A19	4223	£198.00 (33.00)

29/2/16	Teifi Installations: Gwaith ar dir Cae Chwarae Pentop. Work on the Pentop Play Area site	C12		£16,852.50 (2,808.75)
---------	---	-----	--	--------------------------

Cynigiodd y Cyng. Jane Roche bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.

Cllr Jane Roche proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Clive Davies.

Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod y bil uchod i dalu Teifi Installations yn cael ei dalu; eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George. Caiff canran o'r bil i'w ad-dalu o Gronfa Gymunedol y cyngor sir. Cytunwyd talu'r bil o gyfrif cyfredol y NatWest.

Cllr Dai Brabrook proposed that the above bill from Teifi Installations be paid; this was seconded by Cllr Melfydd George. A percentage of this bill will be repaid by a grant from the county council Community Fund. It was agreed to pay the bill from the NatWest current account.

Derbyniadau/Receipts: 11/1/16 Lloyds Bank: Llog y Banc/Bank Interest £4.53

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Llwybr Bro Teifi 78/53: Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi penderfynu i gadarnhau y gorchymyn i ailagor y llwybr. Mae'r frwydr i'w ailagor wedi parhau am dros bedair blynedd. Mae gan Tai Ceredigion yr hawl eto i apelio yn erbyn y penderfyniad.**
- (ii) **Roedd y Cyng. Cole yn bles bod y toiledau yn Lôn y Moch a Feidrfair i'w hailagor drwy effeithiolrwydd cwmni 4CG.**
- (iii) **Bydd treth gyngor Cyngor Sir Ceredigion yn cynyddu yn ôl 5% y flwyddyn nesaf. Roedd y Cyng. Cole yn siomedig â'r cynnydd hwn.**
- (iv) **Meysydd Parcio Aberteifi: Mae Cabinet y cyngor sir wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch taliadau'r meysydd parcio. Nid oes penderfyniad pendant wedi ei gyrraedd hyd yn hyn. Mae'r cynghorwyr sir lleol yn dal i wthio i'r awdurdod gynnig meysydd parcio am ddim o 9-11 y bore.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Gweler "Croeso'r Maer a Materion Personol" (tudalen 1088, eitem 1).**

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Cae Chwarae Pentop: Mae'r contractwr, Mike Phillips (Teifi Installations), wedi gweithio'n ddyfal ar y tir yn dilyn y tywydd annymunol.**
- (ii) **Mae'r ymgynghoriad ynglyn â chyfarpar Man Chwarae Netpwl yn parhau. Disgwylir ymateb oddi wrth blant yr Ysgol Gynradd.**

(a) Cllr Mark Cole:

- (i) **Bro Teifi Footpath 78/53: The Planning Inspectorate has concluded that the Order to re-open the footpath should be confirmed. The debate has continued for over four years. Tai Ceredigion reserves the right to further appeal the decision.**
- (ii) **Cllr Cole was pleased that 4CG had taken responsibility to re-open the Chancery Lane and Feidrfair public conveniences.**
- (iii) **Ceredigion County Council has agreed to impose a 5% increase in the council tax rate for 2016-17. Cllr Cole was disappointed with this increase.**
- (iv) **Cardigan Car Parks: The county council Cabinet has received the recommendations made by the Thriving Communities Overview and Scrutiny Committee in relation to the car parking regime. The Cabinet decision has not as yet been reached. Local members are still eager to obtain free car parking between 9 and 11.00am.**

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **See the "Chair's Welcome and Personal Matters" (page 1088, item 1).**

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) **Pentop Play Area: The contractor, Mike Phillips (Teifi Installations) has made remarkable progress following the inclement weather experienced this winter.**
- (ii) **The consultation process regarding the closure of the Netpool play area is continuing. A response to this is expected from the children of Ysgol Gynradd Aberteifi.**

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
229	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Arddangosfeydd Blodau: Cadarnhad bod y cyngor sir yn gosod blodau yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17.</i> Confirmation that the county council will supply bedding plants and floral planters for 2016-17. Confirmation of the acceptance of agreement to be received by 29 April.	<i>Derbyniwyd yr argymhelliad gan y cyngor sir bod y Bachan Deche yn gyfrifol am ddyfrhau'r planhigion.</i> The proposal was accepted by the council, and that the Handyperson would be responsible for watering the plants. Proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.
230	CSC/CCC (Barry Rees): <i>Proses Ymgynghori – Adolygiad o Gludiant Anghenion Addysg Ychwanegol.</i> Consultation Process – Additional Learning Needs Transport Review.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 23/2/16.</i> E-mail forwarded to members 23/2/16
231	CSC/CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd (Sgwâr Finch, Stryd y Priordy, Stryd Fawr, cyffordd Stryd y Cei).</i> Road closure (Finch Square, Priory Street, High Street, Quay Street junction, 11.30-12.00, 25/3/16)	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 17/2/16.</i> E-mail forwarded to members 17/2/16
232	CSC/CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd (Stryd y Santes Fair).</i> Road closure (St Mary Street, 8.00-16.00, 1/3/16)	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 16/2/16.</i> E-mail forwarded to members 16/2/16
233	CSC/CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd (Sadwrn Barlys).</i> Road closure (Barley Saturday, 13.30-16.30, 30/4/16)	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 29/2/16.</i> E-mail forwarded to members 29/2/16
234	CSC/CCC (Eifion Jones): <i>Cynllun Mabwysiadu Llwybrau / Adopt a Path Scheme. Gwefan y llwybrau cyhoeddus/</i> Link to the public footpaths: http://map.ceredigion.gov.uk/connect/?mapcfg=PROW V1	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 18/2/16.</i> E-mail forwarded to members 18/2/16
235	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwybodaeth am waith ar geuffos yn Netpwl.</i> Natural Resources Wales: Information on upgrading a manhole cover on the confined space entry point to the Afon Mwldan overflow culvert at Netpool.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 18/2/16.</i> E-mail forwarded to members 18/2/16
236	Ms Jacquie Sullivan: <i>Gwybodaeth am ddeiseb yn erbyn symud Llyfrgell Aberteifi o Ganolfan Teifi.</i> Information regarding the petition not to relocate Cardigan Library from Canolfan Teifi.	<i>Mynegodd y Cyng. Gwynfi Jenkins ei wrthwynebiad pendant yn erbyn symud y llyfrgell (gweler isod).</i> Cllr Gwynfi Jenkins voiced a compelling case opposing the decision to move the library (see below).
237	Menter Aberteifi: <i>Cais am lythyr o gefnogaeth i'r Wyl Afon a Bwyd.</i> Application for a letter of support for the River & Food Festival.	<i>Llythyr o gefnogaeth wedi ei anfon ar 23/2/16.</i> Letter of support forwarded on 23/2/16.
238	Mrs Janet Barber, Afallon, Cnwcydintir: <i>E-bost yn mynegi ei phryderon ynghylch y goleuadau ar Lôn Cnwcydintir.</i> E-mail voicing concerns regarding the light columns at Lôn Cnwcydintir.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 18/2/16.</i> E-mail forwarded to members 18/2/16. <i>Cytunwyd i'r Maer a'r clerc gysylltu â swyddog newydd y cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am oleuadau'r strydoedd.</i> It was agreed that the Mayor and clerk contact the newly-appointed street lights officer of the county council.
239	Cyngor Bro Llangeler Community Council, Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn/Newcastle Emlyn Town Council, Cyngor Cymuned Crymych Community Council, Cyngor Cymuned Mynachlog-ddu Community Council: (4) <i>Llythyron o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letters of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
240	Cyngor Cymuned Cilgerran Community Council: <i>Llythyr yn nodi y bydd y Cyng. Noel Evans yn cynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod cyhoeddus.</i> Letter confirming that the above-named councillor will represent the council at the public meeting, 15/3/16.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

241	<i>Un Llais Cymru: Llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr yn mynegi ei siom bod cyngor y dref wedi gwrthod ailymaelodi ac yn gofyn i'r cyngor ailystyried ei benderfyniad.</i> One Voice Wales: Letter of disappointment from the Chief Executive at the decision of the town council not to re-register its membership and requesting the council to reconsider rejoining.	<i>Rheswm pendant am beidio ailymaelodi yw'r gost uchel sydd oddeutu £700.</i> The main reason given for not re-registering is the high cost of approx. £700.
242	Abacus Cleaning Services: <i>Gwybodaeth am archwilio'r meysydd chwarae.</i> Information regarding the company's request to inspect the play areas (RoSPA-trained personnel).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
243	Ms Carys Dyer (Cyfreithwraig/Solicitor): <i>Copi o brydles Cae Chwarae Pentop/Draft copy of the Pentop Play Area lease</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
244	<i>Uchel Siryf Dyfed: Gwahoddiad i'r Maer fynychu'r seremoni Datganiad Swydd, Capel Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, 24/3/16, 2.00pm.</i> The High Sheriff of Dyfed: An invitation to the Mayor to attend the Declaration Ceremony.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
245	Menter Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
246	<i>Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care:</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
247	Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude Twinning Committee: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
248	Tenovus Cancer Care: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
249	Age Cymru Ceredigion: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
250	Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
251	Radio Glangwili: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
252	Gŵyl y Cynhaeaf: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
253	Felero Ltd., Castle View, The Strand: <i>Ffurflenni'r brydles i'w harwyddo.</i> Form of Notice that Sections 24 to 28 of the Landlord and Tenant Act 1954 are not to apply to a Business Tenancy to be signed.	<i>Cytunwyd bod y Maer a'r clerc yn arwyddo'r ffurflenni. Y Clerc i ofyn i gyfreithiwr i arwyddo'r ddogfen berthnasol. It was agreed that the Mayor and clerk sign the forms. The clerk to request a local solicitor to sign the relevant form.</i>
254	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Chwefror.</i> Handyperson's February report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
255	Poppit Life Saving Club: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.

[236]

Roedd y Cyng. Gwynfi Jenkins yn bryderus iawn gyda'r argymhelliad bod y llyfrgell i'w hail-leoli yn swyddfeydd y cyngor sir yn Stryd Morgan. Gwyntyllodd y perygl i bobl yn croesi'r ffordd brysur ar y stryd gerllaw a phrinder dybryd y manau parcio i blant, yr henoed a'r anghenus. Mae'r ffordd fawr yn brysur hefyd i'r plant droedio o Ysgol Gynradd Aberteifi i Stryd Morgan, yn enwedig pan fydd y drafnidiaeth ar ei gwaethaf. Mae lleihau'r safle yn hollol annerbyniol, meddai'r Cyng. Jenkins. Hyd yn oed yn ystod y dyddiau hyn, yn oes y *Google*, mae man pwysig iawn gan lyfrau i'r darlennydd brwd o bob oedran.

Ailadroddwyd anghenion y cyngor sir gan y Cyngorwyr Adams-Lewis a Catrin Miles a darbyllwyd ganddynt y costau uchel o redeg adeilad sydd heb fod tan berchenogaeth y cyngor sir. Caiff yr adeilad ei adnewyddu'n hollol i ddygymod â'r newidiadau, a bwriedir gosod lifft i'r llawr cyntaf yn yr adeilad. Mae adran briffyrdd y cyngor sir yn cynllunio croesfan newydd ar gyffordd Stryd Morgan/Stryd y Priordy.

Cllr Gwynfi Jenkins voiced his stern concerns that the library would be relocated to the Morgan Street offices of Ceredigion County Council. He highlighted the danger to pedestrians traversing the busy road in Morgan Street and the lack of car parking facilities for the elderly and infirm. The busy road from Ysgol Gynradd Aberteifi to Morgan Street is hazardous especially during peak times. The downsizing of the premises is quite unacceptable, added Cllr Jenkins. Even in this day of googling information, the availability of books for the enquiring mind is essential.

Cllrs Adams-Lewis and Catrin Miles reiterated the reasoning of the county council's decision, stating the high business rates and cost of services of a building which is not under the ownership of the authority. The Morgan Street premises would be completely refitted to accommodate the library and a lift would be constructed for the benefit of users of the first floor's amenities.

A pedestrian crossing would be created near the busy Morgan Street/Priory Street junction.

Ann Jones:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>
Barry Rees:	<i>Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau / Strategic Director for Learning and Partnerships</i>
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive.</i>
Eifion Jones:	<i>Cynllun Mabwysiadu Llwybrau / Adopt a Path Scheme</i>
Paul Arnold:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.</i> Head of Municipal and Environmental Service

11. (a) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2016-17.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. Clive Davies, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2016-17. Roedd y cyngor yn unfrydol.

(b) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2016-17.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y Cyng. Richard Jones i'w ethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2016-17. Roedd y cyngor yn unfrydol.

(a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2016-17.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins that the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2016-17. Members were unanimous in their decision.

(b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2016-17.

Cllr Dai Brabrook proposed that Cllr Richard Jones be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2016-17. This was seconded by Cllr Graham Evans. Members were unanimous with their decision.

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Chwefror.

Confirmation of 16 February Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Catrin Miles proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Neal Jones.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1085 (Toileadau Cyhoeddus): Datgelwyd gan swyddogion 4CG y bydd toileadau Lôn y Moch ar agor erbyn penwythnos y Pasg a chyfleusterau Feidrfair erbyn Dydd Sadwrn Barlys.

Page 1085 (*Public Conveniences*): It is understood from 4CG officers that the Chancery Lane toilets will be open by Easter and the Feidrfair facilities by Barley Saturday.

Tud. 1085 (Llifogydd): Mae'r wybodaeth wedi ei gosod ar safle we'r cyngor.

Page 1085 (*Floods*): The relevant information has been posted on the council website.

Tud. 1087 (Unrhyw fater arall [c]): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod Mr Tim Phillips (Anvil Fabrications) wedi symud y darn oedd yn peri gofid i'r cyhoedd o'r bandstand.

Page 1087 (*Any other business [c]*): Cllr Catrin Miles stated that Mr Tim Phillips (Anvil Fabrications) has removed the hazardous object from the bandstand.

Tud. 1087 (Unrhyw fater arall [e]): Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y sbwriel o amgylch archfarchnad Tesco wedi ei glirio.

Page 1087 (Any other business [e]): Cllr Adams-Lewis confirmed that the rubbish and litter on the perimeter of the Tesco store has been cleared.

Tud. 1087 (Unrhyw fater arall [f]): Mae'r Cyng. Jane Roche wedi cysylltu â Ms Tracey Hickman, Darparwraig Gwasanaethau Prawf Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, ynglŷn â glanhau graffiti o safleoedd yn y dref. Bydd y Cyng. Roche yn anfon lluniau perthnasol ymlaen at Ms Hickman mewn da bryd.

Page 1087 (Any other business [f]): Cllr Jane Roche has corresponded with Ms Tracey Hickman, Provider of Probation Services, Wales Community Rehabilitation Company, regarding the cleaning of graffiti at various locations in Cardigan. Cllr Roche will furnish Ms Hickman with photographic evidence in due course.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Dywedodd y Cyng. Clive Davies ei fod wedi ymgynghori gyda Mr John Hadlow, swyddog y cyngor sir ar gynnal a chadw meysydd a gerddi, ynglŷn â chynllun gwasgaru hadau blodau gwyllt mewn mannau perthnasol yn y dref a hefyd ar hyd y ffordd osgoi. Mae yna gynllun gwau blodau gwyllt ar y gweill !**

(a) Cllr Clive Davies stated that he had consulted with Mr John Hadlow, Ground Maintenance Supervisor, Parks and Gardens with the county council, regarding the scattering of wild flower seeds in appropriate green areas in town and also along the by-pass verges. A yarn bomb project is also underway.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.54yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.54pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date